# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 20 Mawrth 2024

**<u>Yn bresennol (yn bersonol)</u>**
Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, Dr M Havard, Mrs J James, y Cynghorydd R Jordan, y Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**<u>Yn bresennol (o bell)</u>**
Y Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, y Cynghorydd P Morgan, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd A Wilcox.

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**
Arfon Fry (Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Gary Meopham (Swyddog Ystadau), Chloe Price (Rheolwr Gwasanaethau Llanion) ac Andrew Muskett (Rheolwr Prosiectau Adeiladu).

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 12.00; 12.10pm - 1:30pm]

[Ymunodd y Cynghorydd M James â'r cyfarfod adeg ystyried adroddiad 04/24, y Polisi Iechyd a Diogelwch.]

**1. Materion Personol**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth y Cynghorydd R Owens yn ddiweddar, ac at ei wasanaeth clodwiw i'r Awdurdod. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Cynghorydd V Thomas i'r Awdurdod.

**2. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Plummer.

**3. Datgan Buddiannau**

Datganodd y Cynghorydd B Price bod ganddo fuddiant personol yn adroddiad 09/24, cyllido Croeso Sir Benfro.

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Chwefror 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Dywedodd Mrs J James nad oedd ei phresenoldeb yn y cyfarfod blaenorol wedi'i gofnodi yn y cofnodion, a nodwyd hyn gan y Swyddogion.

Ar gynnig Mrs J James, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Chwefror 2024 yn amodol ar y newid uchod**.**

**5. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nododd yr Aelodau y cofnod gweithredu.

**Nodwyd.**

**6. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol:

- Uwchgynhadledd Trechu Tlodi yng Ngholeg Sir Benfro.
- Cinio Dydd Gŵyl Dewi dan ofal Cyngor Dinas Tyddewi lle cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan y Llywiwr yng Ngorsaf Bad Achub Tyddewi. Mynegodd y Cadeirydd ei diolch i'r rhai sy'n peryglu eu bywydau eu hunain i achub eraill.
- Cyfarfod yn y Senedd i ddathlu 75 mlynedd ers sefydlu Tirweddau Dynodedig Cymru.

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn cau'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, bod Parciau Cenedlaethol Cymru wedi cyflwyno ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad oedd yn nodi effeithiau'r cynllun, a llongyfarchodd y Cadeirydd bawb a gymerodd ran.

Hefyd dywedwyd, er budd y cyhoedd, bod Aelodau'r Awdurdod yn y broses o gwblhau'r Hyfforddiant Llythrennedd Carbon.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/gwybodaeth:

(i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 31/01/2024 ac ar 19/02/2024;
(ii) Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 17/01/2024;
(iii) Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 23/01/2024 ac ar 06/02/2024;
(iv) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 24/01/2024.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**8. Aelodaeth Pwyllgorau a Sefydliadau Allanol**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod angen penodi Aelod(au) i lenwi'r swyddi gweigion ar y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, Y Fforwm Gweithwyr, Pwyllgor Ymgynghorol Porthladd Aberdaugleddau, a'r Grŵp Cynhyrchu Incwm.

Yn dilyn trafodaeth ymhlith yr Aelodau **PENDERFYNWYD**:

a) bod y Cynghorydd V Thomas yn llenwi'r lleoedd gwag ar y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a'r Fforwm Gweithwyr;
b) bod y Cynghorydd S Alderman yn llenwi'r lle gwag ar Bwyllgor Ymgynghorol Porthladd Aberdaugleddau;
c) bod datganiadau o ddiddordeb yn y lle gwag ar y Grŵp Cynhyrchu Incwm i'w hanfon at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

**9. Polisi Iechyd a Diogelwch**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch a gyflwynodd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol yr Aelodau i Bolisi Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod. Eglurodd y Swyddog bod y polisi wedi cael ei adolygu y llynedd ac er bod y fformat wedi newid yn sylweddol o ganlyniad, roedd y cynnwys i raddau helaeth yn aros yr un fath.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â manteision posibl o gael Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag cytunwyd y gallai cael Hyrwyddwr arwain at un Aelod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb, yn hytrach na phob Aelod. Ar fater cyfrifoldeb Aelodau, gofynnwyd am gynnwys manylion pellach am hyn yn y polisi, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Holodd Aelod a ddylid cyfeirio mwy at wirfoddolwyr yn y polisi, ac eglurodd y Swyddog bod Gwirfoddolwyr yn cael eu dosbarthu fel 'staff di-dâl' o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Yn seiliedig ar hyn, roedd y term 'Staff' yn y polisi hefyd yn cyfeirio at Wirfoddolwyr, ond cytunodd y Swyddog i gynnwys diffiniad ar ddechrau'r ddogfen er eglurder.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, cadarnhawyd y byddai'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cynnal adolygiad o'r polisi yn flynyddol, cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Ychwanegwyd mai bwriad y Swyddogion oedd cyflwyno adroddiad Iechyd a Diogelwch blynyddol yn ogystal â'r diweddariadau chwarterol presennol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

Nododd Aelod nad oedd cyfeiriad at rôl y Swyddog Prosiect Iechyd a Diogelwch yn y polisi, a holwyd a fyddai datganiad yn egluro'r rôl hon yn

ychwanegu gwerth. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y polisi yn trafod cyfrifoldebau yn hytrach na rolau Swyddogion unigol.

Dywedodd Aelod y dylai'r weithdrefn o roi gwybod am ddigwyddiadau difrifol gael ei chynnwys yn y polisi, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn y broses o archwilio pob un o bolisïau'r Awdurdod i glustnodi a oes angen adolygu unrhyw bolisïau eraill. Ychwanegwyd, oherwydd cyfyngiadau adnoddau, y byddai angen blaenoriaethu'r adolygiad o bolisïau.

Roedd yr adroddiad yn nodi’r angen i’r Awdurdod sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar Iechyd a Diogelwch, ac fel rhan o hyn, byddai eiriolwr ac arweinydd unigol ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn cael eu clustnodi ar gyfer pob agwedd ar Ddiogelwch Ymwelwyr fel rhan o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch. Awgrymodd Aelod bod teitl y Swyddog sy'n gyfrifol am hyn yn cael ei nodi yn y polisi er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod pwy i droi ato pe bai angen.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD,** yn amodol ar y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, bod geiriad terfynol a chymeradwyo’r Polisi Iechyd a Diogelwch yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd.

**10. Polisi Rheoli Risg**

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr a gyflwynodd y Polisi Rheoli Risg newydd i'w gymeradwyo. Dywedwyd bod Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, dros y blynyddoedd diweddar, wedi cynnal adolygiadau o risgiau'r Awdurdod, ac yn dilyn argymhellion gan yr archwilwyr, roedd polisi newydd wedi'i ddatblygu. Ychwanegwyd bod yr Archwilwyr hefyd wedi argymell bod yr Awdurdod yn clustnodi amcanion, a bod pob risg yn gysylltiedig â'r amcanion hynny.

Holodd Aelod ynghylch y broses o sefydlu'r parodrwydd i dderbyn risg. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei gytuno drwy waith ar y cyd gan y Swyddogion a’r Aelodau a thrwy ddefnyddio’r datganiad o barodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arno gan y Swyddogion a’r Aelodau. Ychwanegwyd y byddai pob Aelod yn cael eu cynnwys yn y broses hon.

I gloi, roedd Aelod wedi nodi, er mwyn amlygu argymhellion yr Archwilwyr, bod angen newid y gair 'Amcanion' i 'Canlyniadau' yn y polisi. Yn ogystal, awgrymwyd defnyddio'r gair 'diogel' wrth gyfeirio at systemau technoleg gwybodaeth yr Awdurdod yn y polisi, ac y dylid ystyried cynnwys diffiniadau ychwanegol yn Adran 4 o'r Polisi.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **PENDERFYNWYD** cytuno ar y Polisi Rheoli Risg a'r Canlyniadau o ran Rheoli Risg cyn belled â bod y diwygiadau uchod yn cael eu cynnwys.

**11. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn rhoi cyfle i'r Aelodau lywio’r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y cyfnod 2023/24. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i graffu yn y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol diweddaraf lle roedd yr Aelodau wedi gwneud amrywiaeth o awgrymiadau ynglŷn â fformatio'r ddogfen. Ymhlith yr awgrymiadau oedd crynhoi'r ddogfen drwy gynnwys hyperddolen i'r Cylch Gorchwyl neu gynnwys y Cylch Gorchwyl fel atodiad, defnyddio mwy o ddiagramau i gyfleu gwybodaeth, a defnyddio croesgyfeirio i osgoi ailadrodd.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai drafft terfynol o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i'w gymeradwyo'n derfynol.

**Nodwyd.**

**12. Diweddariad ar y Traeth Mawr, Trefdraeth**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu a gyflwynodd ddiweddariad ar ganlyniadau’r newidiadau i atal cerbydau rhag cael mynediad i'r traeth yn Traeth Mawr ynghyd â chanlyniadau’r ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cynnig prosiect fyddai'n golygu gwneud gwelliannau i’r cyfleusterau yn Nhraeth Mawr, a gofynnwyd am gefnogaeth yr Aelodau i'r cynnig hwn.

Cytunwyd bod yr adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd, yn gadarnhaol ac yn negyddol, wedi bod yn amhrisiadwy, a bod cyfathrebu yn barhaus â rhanddeiliaid perthnasol yn hollbwysig.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â materion mynediad i Draeth Mawr, a chadarnhaodd y Swyddogion bod yr Awdurdod wedi cysylltu â Swyddog Mynediad Cyngor Sir Penfro (CSP) cyn gwneud y newidiadau ar y safle. Er bod gwaith wedi'i wneud i wella mynediad i'r safle, rhaid oedd cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach, a bod y Swyddogion wrthi'n chwilio am atebion i ddatrys hynny.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â’r costau sy’n gysylltiedig â’r prosiect arfaethedig a pha mor gynaliadwy yw’r datblygiad yn yr hirdymor. Cadarnhaodd y Swyddog bod yr Awdurdod eisoes wedi ymrwymo i gyfrannu £14.6k y flwyddyn ar gyfer cynnal y toiledau cyhoeddus yn

Nhraeth Mawr i CSP, am ddwy flynedd. Y gred oedd, drwy'r buddsoddiad cyfalaf hwn, y byddai gostyngiad yn y gost gyffredinol o redeg y cyfleuster gan y byddai llai o angen am waith cynnal a chadw achlysurol a gosod draeniau cynaliadwy.

Roedd Aelod wedi lleisio pryder ynghylch y posibilrwydd o or-ddatblygu ardal yr oedd yr Awdurdod wedi gweithio i'w warchod. Rhoddodd y Swyddog sicrwydd bod Traeth Mawr wedi'i glustnodi yn lleoliad lle gallai datblygiad o'r natur hwn fynd rhagddo heb gael effaith andwyol ar rinweddau arbennig yr ardal. Ychwanegwyd bod y Swyddogion wedi cysylltu â'r Bartneriaeth Natur leol ynghylch tirweddu i sicrhau bod y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

Bu’r Aelodau yn trafod rhagolygon hirdymor y datblygiad arfaethedig a'r ansicrwydd fyddai'n dilyn y 2 flynedd o ymrwymiad ariannol yr Awdurdod i CSP o ran cynnal y toiledau cyhoeddus. Cytunwyd, er gwaethaf yr ansicrwydd, y byddai'r Awdurdod yn defnyddio'r cyfnod o 2 flynedd i weithio ar y cyd â CSP i leihau costau rhedeg cyffredinol y safle i’w wneud yn fwy cynaliadwy a gwneud y cyfleusterau yn fwy hyfyw yn y tymor hir.

Ar gynnig y Cynghorydd R Jordan, a eiliwyd gan y Cynghorydd P Morgan, **PENDERFYNWYD**:

i) nodi'r adborth o’r ymgysylltu â'r cyhoedd,

ii) cefnogi'r prosiect a glustnodwyd i wella cyfleusterau yn Nhraeth Mawr wrth symud ymlaen i'r cam cynllunio a chyflawni’r gwaith.

**13. Prydles Toiledau yn Nhyddewi**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn amlinellu cais ffurfiol a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Penfro (CSP) ynghylch ildio'r brydles yn gynnar ar Doiledau Cyhoeddus Y Grove yn Nhyddewi.

Atgoffwyd yr Aelodau bod trafodaethau ehangach ynghylch darparu toiledau cyhoeddus wedi cael eu cynnal rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) a CSP ers 2022. Roedd yr adroddiad yn egluro bod y posibilrwydd o gau'r cyfleuster yn rhan o fesurau ehangach CSP i arbed costau oherwydd y pwysau cyllidebol. Ychwanegwyd, oherwydd y pwysau cyllidebol a wynebir hefyd gan yr Awdurdod, y cytunwyd ar uchafswm cyfraniad o £110,00 y flwyddyn am ddwy flynedd. Fel rhan o'r ymrwymiad, nid oedd y cyfleuster cyhoeddus yn Y Grove, Tyddewi, wedi’i glustnodi fel safle â blaenoriaeth, ac y byddai, o ganlyniad, yn cael ei nodi gan CSP ar gyfer cau.

Tynnodd Aelod sylw at restr o gyfleusterau cyhoeddus eraill sydd ar gael yn Nhyddewi oedd ar agor drwy gydol y flwyddyn.

I gychwyn, cynigiwyd opsiwn 4 - Derbyn y cais ond peidio â cheisio negodi taliad iawndal, gan Dr Havard, ond ni chafodd ei eilio a chafodd ei dynnu'n ôl. Hefyd trafododd yr Aelodau amrywiad ar opsiwn 3, sef derbyn y cais ond gofyn i CSP ddad-gomisiynu'r adeilad a'i ddychwelyd fel cragen, sef taliad mewn da. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai taliad mewn arian parod yn cynnig mwy o hyblygrwydd yn dibynnu ar y defnydd terfynol a wneir o’r adeilad.

Ar gynnig y Cynghorydd R Jordan, a eiliwyd gan Mr GA Jones, **PENDERFYNWYD** derbyn cais Cyngor Sir Penfro i ildio’r brydles yn gynnar a dirprwyo’r drafodaeth ar iawndal mewn taliad neu mewn da i’r Prif Weithredwr, ar y cyd â’r Cadeirydd.

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 12:00pm a 12:10pm]*

**14. Cyllido Croeso Sir Benfro**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y cymorth a roddir gan yr Awdurdod i waith Croeso Sir Benfro. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi cefnogi sefydlu Croeso Sir Benfro yn 2020 ac wedi cytuno ar gymorth ariannol dros y cyfnod nesaf o 5 mlynedd. Eglurodd y Prif Weithredwr bod yr Aelodau yn 2023 wedi cytuno i newid y cymorth a roddir i Croeso Sir Benfro am y blynyddoedd 2022/23, 20223/24 a 2024/25 o fod yn gyfraniad mewn da o £34,900 i gyfraniad arian parod o £25,000 y flwyddyn – a bod hyn i’w adolygu yn flynyddol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am berfformiad Croeso Sir Benfro, ac yn seiliedig ar eu llwyddiant, gofynnodd am gytundeb yr Aelodau i barhau â'r trefniant uchod.

Mynegodd Aelod ei bryderon ynghylch yr aelodaeth gymhleth a gynigir gan y sefydliad a’r cyfraddau cadw aelodau yn y tymor hwy. O ran y ffigurau twf aelodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, holodd Aelod a oedd data meincnodi ar gael. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd data meincnodi ar gael, ond bod cymariaethau 12 mis o dwf aelodaeth wedi'u cynnal a gwelwyd bod y patrwm yn gadarnhaol. Dywedodd y Cadeirydd, sy’n cynrychioli’r Awdurdod ar Croeso Sir Benfro, er bod y wybodaeth yn yr adroddiad, a baratowyd gan Croeso Sir Benfro, yn canolbwyntio ar Aelodaeth, roedd llawer o waith arall yn cael ei gyflawni, a chytunodd i sicrhau bod manylion y gwaith hwnnw ar gael i unrhyw Aelod oedd yn dymuno derbyn y wybodaeth. Roedd y Prif Weithredwr hefyd wedi rhoi cyflwyniad blynyddol i'r Awdurdod ar waith y sefydliad.

Ar gynnig y Cynghorydd M Wiggins, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn cytuno i barhau â’r penderfyniad a wnaed fis Ionawr 2023 drwy roi cyfraniad ariannol o £25k i Croeso Sir

Benfro am y flwyddyn ariannol 2024-25, yn hytrach na chyfraniad mewn da.

**15. Calendr Cyfarfodydd 2024/25**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd galendr o’r cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd C Williams, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo’r calendr cyfarfodydd am 2024/25.

**16. Digwyddiadau Corfforaethol**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd restr o’r digwyddiadau corfforaethol allanol y gwahoddwyd yr Aelodau i'w mynychu. Dywedodd y Swyddog bod manylion wedi dod i law ers ysgrifennu’r adroddiad am Gynhadledd Gynllunio Cymru sydd i’w chynnal yng Nghaerdydd ar yr 20fed o Fehefin 2024.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan Mrs S Hoss, **PENDERFYNWYD** awdurdodi lefel y gynrychiolaeth yn y digwyddiadau a restrwyd yn yr adroddiad.

**17. Cydnabyddiaeth Ariannol i’r Aelodau**

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynglŷn â’r Cyflogau Sylfaenol ac Uwch sy'n daladwy i Aelodau’r Awdurdod Parc Cenedlaethol am y flwyddyn ariannol 2024/25. Eglurodd y Cadeirydd mai’r Panel sy’n gosod lefel Cyflogau’r Aelodau ac nad oes gan yr Aelodau unrhyw ran yn eu penderfyniad. Fodd bynnag, gofynnwyd iddynt benderfynu pa swydd(i) ddylai dderbyn Cyflog Uwch.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **PENDERFYNWYD**:

i) nodi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol am y flwyddyn 2024/25;

ii) bod y swyddi sydd i dderbyn Cyflog Uwch yn parhau yn swyddi’r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

**18. Eithrio’r cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn fasnachol sensitif, ac felly gofynnwyd am eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth

eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu.

**19. Diweddariad ar Ailddatblygu'r Ystafell Werdd**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Prosiectau Adeiladu a gyflwynodd ddiweddariad yn dilyn y broses gaffael, a chyflwynodd restr o opsiynau i'w hystyried fel y gellir gwneud penderfyniad, a symud ymlaen â'r opsiwn a ffefrir.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r gwahanol opsiynau ar y ffordd o symud ymlaen, gan ystyried manteision ac anfanteision pob opsiwn.

Ar gynnig y Cynghorydd R Jordan, a eiliwyd gan y Cynghorydd C Williams, **PENDERFYNWYD** cynnal ymarferiad o werth peirianyddol / ailgynllunio i symleiddio'r cynigion yn unol â'r gyllideb sydd ar gael (Opsiwn 2).

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 01 Mai 2024 heb eu diwygio. |